

# Gair Bach Bethlehem 33



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 33 - Ionawr 2022

## Blwyddyn Newydd Felysach!



Er bod hi bellach bron yn ddiwedd mis Ionawr ga'i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd! Do, fe gyrhaeddodd 2022 ar ddydd Calan, sef Ionawr y cynta', diwrnod cynta'r mis. Ond, fel ry'n ni'n gwobod ma' trigolion Cwm Gwaun yn Shir Benfro'n dathlu'r Hen Galan ar Ionawr y 13eg, ac ma' pobl China'n dathlu'r flwyddyn newydd ar Chwefror y 1af. (A fel bo chi'n gwobod 'mlaen llaw, blwyddyn y teigr yw hi 'leni!)

Nawrte, cwestiwn i chi, pwy a phryd ddechreuodd yr holl fusnes yma o ddathlu'r flwyddyn newydd? Wel, mae'n debyg bod y sôn cynta' am ddathlu'n mynd nôl 2,000 o flynyddoedd cyn Crist. A phwy oedd yn dathlu? Wel, trigolion Babilon ac roedd ei blwyddyn newydd nhw'n cychwyn ym mis Mawrth - adeg cychwyn ein gwanwyn ni. Nes 'mlaen, ymunodd yr Eifftiaid a'r Persiaid a'r Groegiaid yn y dathlu, a chyn pen dim roedd pawb wrthi - "gwd thing!"

Nawrte, dau gwestiwn arall i chi, oes sôn am y flwyddyn newydd yn y Beibl, ac, oedd yr Iesu'n dathlu'r flwyddyn newydd? Wel, oes, ac oedd, siŵr o fod. Enw'r Wyl Iddewig oedd "Rosh Hashanah", dau air Hebraeg yn golygu "Pen y Flwyddyn", ac ma' sôn amdano yn llyfre cynta'r Hen Destament, a fel un o'dd yn mynychu'r Synagog, ac yn ymwybodol iawn o'r gyfraith Iddewig, mae'n siŵr bod yr Iesu, a'i ddisgyblion, yn dathlu "Rosh Hashanah". Roedd yr ŵyl hefyd yn cael ei adnabod fel "Diwrnod o Weiddi", pan seiniwyd utgorn arbennig - y "Shoffar" (ie, sho ffar sho gwd! - ys gwetws y bardd!) Ac wedi seinio'r utgorn 100 o weithie'n y synagog (shoffar not sho gwd, os o'chi'n digwydd byw drws nesa!) wel, llond bola o fwyd, pysgodyn yn aml, ac i ddilyn, afalau, a'r afalau hynny wedi'u gorchuddio â mêl, ac yna dymunwyd blwyddyn newydd "felys" i bawb.

Felly, cenwch yr utgorn, rhannwch y mêl, ffarweliwn â'r hen flwyddyn feiryslyd ddrislyd ddiflas 2021, ac edrychwn ymlaen i 2022 mewn gobaith bo "dyddie gwell i ddod". Blwyddyn newydd dda ... a melys i ni gyd.

*Delwyn.*

## Colli Rhiain Philips

Trist cofnodi i ni golli Rhiain Philips, Radur, o'n plith. Bu Rhiain farw ar Ionawr 8fed. Cawsom y fraint ym Methlehem o'i derbyn hi, a'i diweddar ŵr, yr Athro Glyn O Phillips, yn aelodau yn ein mysg ym mis Mai 2017. O ddod i'n plith bu'r ddau yn gyson eu cefnogaeth i'r holl weithgarwch yn y capel tros y blynyddoedd. Tra collwyd Glyn ym mis Gorffennaf 2020, bu Rhiain yn ein cwmni ddiwethaf mewn oedfa ychydig cyn y Nadolig. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth – ei merch a'i mab, Elen ac Aled; y ferch a'r mab yng nghyfraith, Linda a Ralph; ei wyrion, Lowri, Bethan a Dafydd a'r gor-wyrion, Gruff a Rhys.

Yn ystod ei gyrfa, bu'n gyfrannydd rheolaidd i raglenni ac i gylchgronau Cymraeg a bydd darllenwyr y "Gair Bach" yn gwybod iddi gyfrannu erthyglau i ninnau i'w darllen. Isod, dyma un cyfraniad direidus roedd hi wedi ei baratoi, ond iddi wedyn ei ddisodli dros dro gydag erthygl arall i'r un rhifyn. Fel arfer, drwy law John a Marian Evans byddai hi'n anfon ei chyfraniadau a chafodd John ganiatâd Elen i ni gyhoeddi'r isod. Geiriau Elen oedd: "Mi fyddai Mam yn falch iawn. Roedd hi'n mwynhau cydweithio ar yr erthygl a mor falch o'ch help."



*"Ces fy nhafllu oddi ar fy echel y dydd o'r blaen pan ofynnwyd imi, "Pwy ydach chi?" Mi fyddaf yn galw fy hun yn "Rhiain Willias" pan fyddaf yng nghanol rhyw dro trwsgl, ond dydi hyn ddim yn ateb y cwestiwn o bell ffordd.*

*Ym Mlaenau Ffestiniog yn y 30'au "hogan Madge" neu "chwaer Robin" oeddwn i. Dod i lawr i Dalsarnau wedyn a mynd yn "Rhiain Penbryn". Allai i ddim cofio imi ennill unrhyw label arall, nes i Elen ac Aled ddod ac erbyn hynny 'rown i'n ymladd yn erbyn cael teitl "gwraig Glyn Phillips".*

*Ar ôl i'r plant adael gartre, rown i'n mynd â Deio'r ci am ei ymarfer dyddiol o amgylch Bryn Awelon, Yr Wyddgrug. Y fo'n mynd â fi fyddai'n well disgrifiad. Un bore 'roedd gwraig yn y gymdogaeth yn tacluso'r ardd pan welodd Deio a fi. "So you're the Chow's Mother!!"*

*Rhaid cyfaddef mai "gwraig" sydd wedi para hira' a dyna fydd yr ateb bellach."*

**Rhiain Phillips**

Dyma'r oedfaon dros yr wythnosau nesaf

## Suliau Bethlehem – hyd ddiwedd Mawrth

(am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)

### Mis Ionawr:

23 Ionawr – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones

30 Ionawr - Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

### Mis Chwefror:

6 Chwefror - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

13 Chwefror - Parchg Denzil John

20 Chwefror - Parchg Robin Wyn Samuel

27 Chwefror - Parchg Glyn Tudwal Jones

### Mis Mawrth

6 Mawrth - Gŵyl Ddewi (dan ofal Heulwen)

13 Mawrth - Rhys ab Owen

20 Mawrth - Parchg Robert Owen Griffiths

27 Mawrth - Parchg Ganon Aled Edwards

### Hefyd yn y rhifyn hwn

\* Newyddion

\* Erthyglau

\* Lluniau o'r oedfaon

Y Cwrdd Merched

Shan Osborne

## Danteithion Dolig Marian



Unwaith eto bu merched Bethlehem yn hel eu boliau tra'n blasu bwydydd Nadoligaidd Marian Evans. Yn wir, fydde Nadolig ddim 'run peth i ni yn y Cwrdd Merched heb sesiwn coginio Marian, ac roedd yn ôl eto eleni "by popular demand". Fel dywedodd Eirlys wrth ei chyflwyno, mae'n siŵr mai'r aml dalentog Marian yw "superwoman" Bethlehem.

Cawsom bnawn hynod o ddifyr a phleserus yng nghwmni Marian a oedd wedi paratoi'n drylwyr ar ein cyfer. Roedd danteithion dirifedi, yn felys a sawrus i'w blasu ac fe'n hysbrydolwyd un ag oll i fynd adre i goginio. Dim Nadolig M&S fyddai eleni ond Nadolig M E. Diolch Marian am roi blas y Nadolig inni ar bnawn diflas o Ragfyr.

Diolch hefyd i Eirlys am lywio'r pnawn ac i Delyth am ei myfyrdod agoriadol amserol a pherthnasol.

Mae'r lluniau o'r holl oedfaon arbennig fu dros y Nadolig yn cychwyn ar dudalen 8

## Newyddion Bethlehem

**PENBLWYDDI** - Mae pob un o'n cyd-aelodau yn sicr o fod yn dathlu eu pen-blwydd rhywdro'r flwyddyn hon! Ond teg nodi fod yna glwstwr bach gydag achos i ddathlu cerrig milltir go arbennig o gwmpas Ionawr a dechrau Chwefror eleni. Dydi'r canlynol ddim i gyd yn cyrraedd yr un degawd â'i gilydd, ond gawn ni ddymuno pen-blwydd hapus iawn iddyn nhw: **Heulwen Jones** (Yr Eglwys Newydd), **Joy Glyn** Pentyrch), **Eira Williams** (Pentyrch) ac **Eirlys Davies** (Danescourt). Os gwyddoch chi am rywun ddylai fod ar y rhestr, wel rhwch wybod i ni, da chi!

### Gair o ddiolch



Roedd un ychwanegiad i gyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul na fu'n rhan o 'ymarferion Heulwen'. Yn ddiarwybod iddi hi, ar y diwedd, cafwyd gair o ddiolch i Heulwen Jones ei hunan gan Leah a chyflwynwyd tussw o flodau iddi am ei holl waith. (Bu bron i'n ffotograffwyr golli'r cyfan – a rhaid fu chwilio am lun arall ohoni, ar achlysur gwahanol – ond yn dal dan y mwgwd!)

### Bedydd Jini Grug



Jini Grug, merch Sara ac Aled Davies yn cael ei bedyddio ar fore Sul, Ionawr 2, 2022 (o hirbell, yn unol â'r canllawiau COVID!) Yn y gynulleidfa roedd mam-gu, nain a tad-cu, sef Gwyneth Lewis, Pentyrch a Carys ac Elwyn o'r Tabernacl, ynghyd â dau frawd Jini Grug, sef Elis a Steffan, a'i chwaer, Nanw.

Mae'r ffôn yn canu. Rhwng cwsg ac effro, wedi'r cyfan tydi hi ddim ond chwarter wedi saith, rydech chi'n codi'n ddrislyd i'w ateb. Naill ai mae 'na argyfwng neu'n llawer mwy tebygol, recordiad o lais sydd 'na o Amazon neu gwmni tebyg. Dro arall, wedi bwlch o rai eiliadau daw llais dieithr iawn yn gofyn am gael gair efo "Meester Eeevanz." Wn i. Mae'n brofiad cyffredin i chithe. Niwsans o alwad ddibwrpas. Mae gen i eto i ddysgu sut i rwystro galwadau o'r fath.

Galwad arall, a all fod yr un mor rhwystredig, yw pan mae'r sawl sy'n galw, yn hytrach na dweud ei (h)enw yn dweud rhywbeth fel "Yde chi'n nabod y llais? ... Dowch odd'na ... rydech chi'n fy nabod i'n iawn." Pe na bawn i ar ganol rhyw dasg sy'n rhaid ei chyflawni ar frys mae'n debyg y byddai gen i fwy o amynedd gyda chyflwyniad o'r fath, a fwriadwyd i dynnu coes. Fe all hynny hefyd fod yn brofiad cyffredin i chithe.

Dyna wedyn yr achlysur lle'r ydych chi'n ateb y ffôn a llais o'r pen arall yn dweud "Lowri sy 'ma". Lowri; Lowri! Pa Lowri? A dyma chithe yn gwneud pob math o esgusodion i gael mwy o wybodaeth ac i nabod yr acen. Gog neu Hwntw? Ond mae'ch dryswch eisoes yn amlwg i'r sawl sy'n galw ac mae hi'n mynd gam ymhellach "Merch hwn-a-hwn". A chwarae teg i mi. Does gen i ddim côf i'r Lowri hon godi'r ffôn am sgwrs o'r blaen yn yr ugain mlynedd y buo ni'n byw yma!

Mae gen i go' codi'r ffôn yn swyddfa'r BBC ym Mangor. Rhyw Sais yn cwyno am raglen radio oedd 'no, gan honni "*I'm speaking on behalf of the majority of people in North Wales.*"

Tipyn o honiad! "Dwedwch eich bod yn siarad ar ran eich gwraig a chithe," meddwn wrtho "ac fe'ch creda i chi." A chware teg i'r galwr, chwerthin wnaeth o a derbyn yr awgrym.

O'm hochor inne, mae'n ofid i mi hyd y dydd hwn i mi ateb y ffôn ac ymateb yn gwbl amhriodol. Mae hynny wedi digwydd ddwywaith o leia'. Un bore, eto yn swyddfa'r BBC ym Mangor, dyma fy 'nghymorthwy-ydd' yn dweud fod hwn-a-hwn eisiau gair. Minnau'n derbyn yr alwad ac yn dweud yn bryfoclyd wrth y galwr "Gwranda [roeddwn i'n nabod y galwr yn dda yn ffrindiau efo'r teulu] os mai ffonio i holi am job wyt ti waeth i ti heb. Mae 'na ddwsin o dy flaen di yn y ciw ..." Aeth y llinell yn dawel, ac meddai'r llais o'r pen arall, yn amlwg dan deimlad, "ffonio oeddwn i ... i ddweud fod Ken wedi marw'n sydyn bore 'ma." Ken, oedd Ken Barton a arferai chwarae i Tottenham Hotspurs ac a fu'n "ail-lais" yn y sylwebaethau pêl-droed cynnar. Byddai'n dda gen i pe bae'r ddaear yn fy llyncu.

Digwyddodd peth tebyg flynyddoedd yn ddiweddarach. Harri P. J. oedd ar y ffôn. Minnau, o nabod ei lais, yn bwrw ati i dynnu ei goes. Torrodd ar fy nhraws. "Ti heb glywed mae'n rhaid. Bu farw Bedwyr heddiw."

Oes, mae 'na alwad a galwad.



Chwilota oeddwn i y dydd o'r blaen, chwilota am ddim byd yn benodol, ond, chwilota, yn ddi-arwybod, serch hynny, am rywbeth neu'i gilydd.

Gwell chwilota, yn y lle cyntaf, am ystyr y gair "*chwilota*", a hynny ar Ap Geiriadur Prifysgol Cymru, a darganfod mai yr ystyr wreiddiol oedd "*edrych am chwilod*"! Bellach fe'i diffinnir fel "*chwilio (yn aml yn fusneslyd) drwy bentwr neu gasgliad (o ddillad, eiddo, llyfrau &c.) am rywbeth, chwilmanta; palfalu er mwyn cael hyd i rywbeth; chwilenna, chwiwladrata, lladrata mân bethau.*"

A gan bod teulu Bethlehem yn dod o bob rhan o Gymru, gobeithio bod yn y fan yna ddiffiniad sy'n siwtio pob tafodiaith o Fôn i Fynwy. Ond dewch i ni weld beth oedd pen draw'r chwilota y tro yma?

Troi yn gyntaf at gist sydd a dan y gwely yn tŷ ni – yno fe gewch glwstwr o gylchgronau a phapurau o'm cartref ym Mhen-y-groes, a thoreth o lythyrau a ysgrifennwyd ataf (ac atom fel teulu wedyn) gan fy nhad, a hynny ers y flwyddyn y bu i mi ddechrau yn y coleg yma yng Nghaerdydd yn 1970. 'Roedd yn llythyrwr brwd a chyson, yn cronico hanes y teulu, y capel a'r pentref o wythnos i wythnos, a'r tywydd! Ac yna yn ychwanegol, ynghanol y cyfan, fe geid rhyw atgof o'i orffennol wedi ei gweu yn stori ddifyr.



Y llythyr cyntaf i mi ei bigo o'r clwstwr oedd un a 'sgrifennodd union ddeugain mlynedd yn ôl, ym mis Ionawr 1982. Dyma'r cyfnod wrth gwrs y bu i rannau helaeth o Gymru fod o dan y lluwchfeydd gwaethaf o eira a welwyd yn ystod yr 20fed ganrif. Bryd hynny dechreuodd yr eira syrthio gyda'r nos ar Ionawr y 7fed, gan barhau'n ddi-baid dros gyfnod o 36 awr. 'Roedd gwyntoedd oer, cryfion, o'r dwyrain yn chwythu'r cyfan yn chwrligwgan o'n hamgylch.

'Roedd yr eira mewn ambell fan dros 6 metr (19 troedfedd) o ddyfnder, pentrefi wedi eu hynysu am

ddyddiau lawer, a'r ysgolion ar gau am gyfnodau maith. (Teimlad tebyg i'r cyfnodau clo diweddar yma fe'ch clywaf yn dweud!) Bu'r M4 ar gau, a bu i do Pafiliwn Gerddi Sophia ddymchwel dan bwysau'r eira. 'Roedd trê'n wedi ei dal ar linell Arfordir y Cambria, a gorfu i hofrennydd achub y teithwyr ohoni. Bu'r tymheredd mor isel a -20 gradd C (-4 gradd F).

Fe atgoffwyd fy nhad, yn ôl y llythyr, am eira mawr 1947, a dyma ei gofnod o hynny:-

*"Mynd i'r Garn(dolbenmaen) - ar fy nhraed hefo'r hen ewythr (Jac Morris) ar nos Sadwrn ym mis Mawrth. Tybed fy mod wedi cerdded yno? Yn wir methaf a chofio.*

*Yr hen greadur yn y siambar ac Anti Nani (chwaer ei fam) a minnau yn y gegin. Un siambar, un gegin ac un pantri oedd yno – ac un corn simdde ar ddau dy. Gofyn iddo tybed a fuasai yn medru yfed diferyn o gwrw gan (medda fo) fod ei geg 'fel twmpathau eithin'. Minnau yn mynd a photel am y Cross Foxes yn is i lawr. Llond y lle. Profiad diarth iawn i mi oedd mynd i dŷ tafarn ar nos Sadwrn, a llawer yn rhythu ar y dyn diarth – er nad oeddwn yn ddiarth i bawb chwaith.*

*Siwrna seithug braidd, nid oedd yr hen frawd yn 'tebol i'r ddiod gadarn er wedi llowcio llynnoedd ar hyd ei oes. Y nos yn hir a dim lle i 'stwytho yn unman. Mynd allan i chwilio am ffynnon i gael dwr i wneud paned. Daeth y wawr a minnau eisiau troi am adref.*

*'Roedd gan Nani goed tân – nid priciau – bendigedig. Yr hen Jac yn gordro Nani i 'nôl sach a'i lenwi hefo coed i Dic 'fynd efo fo'. Clowntiau mawr a minnau yn ei chychwyn ar fore Sul.*



*Cerdded i lawr o'r Tŷ Eiddew a throi am yr hen lôn i gyfeiriad Dafarn Faig. Yn siŵr 'roedd yno weithio caled wedi bod i agor y ffyrdd. Cychwyn ar Lon Tai Duon – y baich coed yn trymhau a minnau ddim am ildio – 'roedd pob cam yn nes adref. Mynd heibio mynwent Tai Duon a bron a chuddio peth o'r pwn yno, ond dal ati.*

*Cyrraedd ochr arall i Allt Pant-Gog (allt y Mast Mawr heddiw), a'r eira yno hyd ben y cloddiau. Dygnu 'mlaen a minnau heb ddiffygio chwaith. Cyrraedd Penrallt (Nebo) a rhannu'r coed hefo mam. Troedio am adref (Penygroes) – Beryl [fy chwaer i] yn fabi bach (prin 3 mis oed) ar y pryd."*

Yn yr un gist o dan y gwely, deuthum o hyd i gofnod o gyfnod fy nhad fel milwr yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a chadarnhad mai "Gunner" gyda'r 90th Middlesex Heavy Anti-Aircraft Regiment, Royal Artillery, ydoedd, rhwng y 24ain o Hydref 1940 (dau ddiwrnod yn unig wedi dydd priodas fy mam a'm tad) a dydd Nadolig 1945.

Chwilota wedyn ymysg y papurau enwadol digidol sydd ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a phenderfynu canolbwyntio ar ddeunydd perthnasol i Fethlehem, Gwaelod-y-garth, yn ystod mis Ionawr unrhyw flwyddyn.

A'r cofnod cyntaf i ymddangos oedd hanes Cyfarfodydd Ordeinio'r Parchedig R G Berry yn 1897:-

*"Ar y dyddiau Sul a Llun, (Ionawr 3ydd a'r 4ydd) cynhaliwyd cyfarfodydd ordeinio Mr R G Berry, Llanrwst, yn weinidog ar eglwys Annibynol Bethlehem, Pentyrch. Cafwyd ar y Sabbath dair pregeth ragorol gan y Parch W Cynwyd Williams, Llanrwst, cyn-weinidog Mr Berry. Ar y Llun, yn oedfa'r boreu, llywyddodd y Parch W.I. Morris, Pontypridd. Gwnaeth y cadeirydd gyfeiriad tyner at farwolaeth sydyn Dr Herber Evans, yr hwn a ddisgwylid i gymeryd rhan yn y cyfarfodydd gyda'r Proffeswr Davies M.A., Bangor, yr hwn hefyd oherwydd mawolaeth y Doctor, oedd yn absennol.*

*Ar gynigiad y Parch J Williams, Hafod, ac eiliad y Parch W Rees, Glandwr, pasiwyd cydymdeimlad a Mrs Evans a'r perthnasau.*

*Dechreuwyd y gwahanol gyfarfodydd gan y Parchedigion W.E.Evans, Tabor, Jonah Miles, Gwaelod-y-garth, R.A.James, Tongwynlais a W.Hughes, Barri.*

*Boreu Llun pregethodd y Parch M.C.Morris, Ton-ystrad, ar "Natur Eglwys". Gofynwyd y cwestiynnau gan y Parch J Davies, Efail-Isaf, yr hwn wedi cymeryd yr arwydd arferol, a offrymodd yr urdd-weddi. Pregethwyd siars i'r gweinidog gan y Parch W Cynwyd Williams, ac i'r un cyfeiriad gan y Parch T-J Rees, Llangatwg.*

*Cyflwynodd y Parch Cynwyd Williams, ar ran ei eglwys, bwrs o aur i Mr Berry, gan roddi iddo glod uchel, i'r hyn yr atebodd yntau yn fyr.*

*Terfynwyd gan y Parch D.G.Rees, Whitchurch.*

*Yn y Prynawn a'r hwyr, pregethodd y Parchn. T Hughes, Minny Street, Cathays; J Williams, Hafod; H.M.Hughes, Caerdydd; a J.R.Davies, Docks. Yr oedd yn bresennol nifer luosog o weinidogion a phregethwyr, ac amryw leygwyr wedi dyfod o gryn bellter. Cyfarfodydd llwyddianus drwyddynt."*

A dyna le da i roi stop ar y chwilota am un diwrnod!

## BETHLEHEM AR Y BOCS!



Hwyrach i chi sylwi ar y camera ychwanegol oedd yn ffilmio yn ystod y ddrama Nadolig. Rwy'n siŵr y cawn ni ddatgelu rhagor o fanylion cyn bo hir - digon yw dweud fod y cwmni teledu yn paratoi rhaglen ar wahanol grefyddau ac yn ffilmio rhai o gast cyflwyniad Bethlehem y bore hwnnw. (Ond fe sylwch i'n ffotograffydd ni roi'r un faint o sylw i'n camera arferol sydd, diolch i Wyn Jones, wedi bod yn cofnodi'r oedfaon, dros holl gyfnod y pandemig, rhag i neb gollu'r cyfle i ymuno â'n haddoliad bob Sul.

Beth sy'n ysgogi dyfeisgarwch, dwedwch? Os ydyn ni'n credu'r dywedriad "*Necessity is the mother of invention*" yn yr iaith fain, yna'r "angen" neu'r "galw" sydd tu ôl i'r cyfan. Dichon ei fod yn wir.

Yr hyn ysgogodd fy nghwestiwn am ddyfeisgarwch oedd cofnod yn y Western Mail yn ddiweddar am gollu gwr o Dreherbert arferai yrru gyda roced ar do ei gar. 'Doedd yr adroddiad ddim cweit yn egluro beth yn union oedd diben y ddyfais – nac ychwaith rhai o syniadau blaenorol yr ymadawedig. Ond rwy'n tybio eu bod i gyd yn rhai clodwiw, os nad eto wedi datblygu'n rhai byd-enwog.

Prociodd yr adroddiad hwnnw i mi geisio dwyn i gof syniadau eraill – gwych a gwachul! O bosib mai'r un mwyaf ysmala oedd hanes y gwr o Feirionnydd oedd yn awyddus i osgoi mynd allan i ddiogelu'r ieir rhag y cadno ar nosweithiau gaeafol. Cyn i'r nos nesáu, roedd angen iddo ddiosg ei slipers, ail-wisgo'n gynnes a throedio lawr y ffald i gau drws cw b yr ieir.

Roedd ganddo syniad gwell! Gosododd gortyn i reoli'r drws bach ar ffrynt y cw b, cortyn fyddai'n cau'r byd mawr oddi wrth y dofednod dros nos. Gallai felly reoli'r cyfan o gegin y tyddyn. Syniad i'w ganmol ar noson o farrug, rhaid dweud.

Yn anffodus iddo, un noson, roedd Sion Blewyn Coch wedi cael y blaen arno ac wedi gwahodd ei hun i'r sied ieir cyn i'r tyddynwr dynnu'r cordyn noswyllo. Bu'r drws ynghau dros nos. Yn y bore, tynnwyd y cortyn eto, i agor y ddôr. Cerddodd Sion Blewyn Coch allan yn llawen ac aeth adre'n gadno bodlon ei fyd!

Mae'n wir i ni'r Cymry gynhyrchu rhai mwy dyfeisgar na hyn yn eu dydd. Yn wyddonol rhaid ymfalchïo yn y gwr roddodd fodolaeth i'r arwydd "hafal - = " sef Robert Recorde o Ddinbych y Pysgod, ac hefyd i'r Monwysyn, William Jones, roddodd gychwyn ar ddefnyddio "π" (nid y pastai Clark's o Gaerdydd chwaith!). A ddylen ni ddim anghofio'r hen Alfred Russel Wallace, o Frynbuga, gollodd y ras yn erbyn Darwin i ddatgelu ein gwir dras. Nac ychwaith David Edward Hughes, o ardal Corwen, am ddyfeisio'r meicroffon neu E G Bowen, o Abertawe, sy'n cael y clod am ddyfeisio "radar" ar gyfer awyrennau. Ac onid o Dreorci y daeth David Davies, y meddwl tu ôl i ragflaenydd y we-fyd-eang? Hynny ymhell wedi i Pryce Pryce-Jones o'r Drenewydd ragweld rhinwedd gwerthu o hirbell, cyn dyddiau Amazon.

Oes, mae ganddon ni sawl darganfyddydd neu ddyfeisydd. Ond mae 'na hefyd ambell un, fel dyfeisydd drws cw b yr ieir, sydd ymron wedi eu hanghofio. Yn fy nyddiau ar raglen "Y Dydd", tra roedd honno'n dal dan faner TWW/HTV, mae gen i gof byw am ŵr o ochrau Llandudno, Richard Williams, yn honni bod ganddo ddyfais oedd yn galluogi i gerbyd i redeg ar ddŵr. Doedd y cwmnïau olew ddim yn cynhesu at y syniad ar y pryd – a pha syndod!

Yna, dyna Mr Williams yn cychwyn creu "arian papur" Cymreig! Ie'n wir! Dros gyfnod o dair blynedd, bu rhain ar werth, ond gosodwyd cyfyngiadau cyfreithiol ac ariannol llym arno a daeth y cyfan i ben, union hanner can mlynedd i eleni - ym 1972.

Wele'r papur punt ar y dde. Roedd un ar werth yn ddiweddar am £100 ar y we! A'r llun arno? Humphrey Llwyd, y mapiwr ac aelod seneddol. A wyddoch chi beth oedd yr arwyddair ar arfbais yr hen Humphrey? "*Hwy pery clod na golud*" Ai lwc neu ddyfeisgarwch achosodd i Richard Williams ddewis hwn ar bapur punt sydd wedi cynyddu ganwaith drosodd mewn hanner canrif?



Unwaith eto, dyfeisgarwch Heulwen Jones oedd tu ôl i sgrïpt y cyflwyniad ar y Sul cyn y Nadolig. Mae rhestr o'r cast i'w gweld isod a'r lluniau'n dilyn. (Ac mae Heulwen am fynegi ei diolch arbennig i'r plant, y bobl ifanc, yr oedolion, ac i holl rieni Bethlehem am eu cymorth amhrisiadwy gyda'r paratoi, ac am eu cydweithrediad parod trwy'r flwyddyn aeth heibio.) Mae'r cyflwyniad yn dal i fod ar gael ar YouTube: <https://youtu.be/fR1UraqMJ9M>

**Mair a Joseff:** Elsi Tame a Gruffudd Evans

**Sêr-ddewiniaid:** Sara Thomas, Trystan ap Rhys a Tomos Green

**Herod:** Elis Davies      **Gwas:** Steffan Davies

**Gabriel:** Alys Huws      **Perchennog y llety:** Gwenni Owen-Griffiths

**Angylion:**

Lea, Betsan ac Esther Walters; Anni Huws ac Anna Green; Eluned Evans a Nanw Davies; Pegi a Clara Warlow; Besi Ann Glyn

**Bugeiliaid:**

Luned Garside, Enfys Biggs, Anest Jones & Wil Wyatt

**Pawb a'i Farn:**

**Betsan Powys** Megan Thomas    **Gohebydd Ifan Garside**

**Y Panel:**

**Aaron Rofi:** Aaron Owen-Griffiths / **Olwen Caravaggio** Olwen Lloyd / **Awen Eos** Awen Thomas / **Mabon Wa**

Mabon Rhys / **Mabli Di-gar** Mabli Biggs / **Nel Sgwlyn** Nel Tame / **Ffion Siec** Ffion Biggs

**Pawb a'i Farn o'r gorfennol:**

**Dewi Llwyd** Ifan Roberts / **Dafydd Wigley** R Alun Evans / **Rhodri Morgan** Rhys Powys / **Roger Roberts** Gwyn Roberts

/ **Elwyn Jones** Rhodri-Gwynn Jones

**Cyfeilydd** Delyth Evans







Y Gohebydd a'r Angylion



Gabriel



Herod a'i was



Neges mewn unawd



Holi'r bugeiliaid



Gwr y llety



Pawb a'i Farn o Ragfyr 2001



Dim ond dau sêr-ddewin oherwydd salwch!



Mair a Joseff gyda'r baban Iesu



... a gyda'r côr angylion

## Oedfa'r Naw Llith a Charol


Mae ein dolch i Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd, am drefnu'r oedfa Naw Llith a Charol ar Rhagfyr 12fed 2021. Dyma'r cyfranwyr ar y noson (sy'n cynnwys wythawd o "gôr Eilir" – cantorion sydd wedi ein cefnogi ar sawl achlysur bellach).



Mae'r holl wasanaeth i'w gael o hyd ar YouTube drwy ddefnyddio'r ddolen isod:  
<https://youtu.be/d9LCfJsbyHE>

## Oedfa Bore'r Nadolig

Diolch i'r holl aelodau gyfrannodd i'r oedfa ar fore'r Nadolig eto eleni – ac i Rhodri am ei threfnu. Mae'r cyfan yn dal i fod ar YouTube: <https://youtu.be/tiIDVHEGCU>



Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifynnau o

## Gair Bach Bethlehem

dros yr holl fisoedd.

A diolch i chi am ei ddarllen!

**Beth am gael saib bach dros fis Chwefror?**

**Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Mawrth 16 2022: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com)**

## Plygain 2022

Er gwaetha'r cyfyngiadau COVID, llwyddwyd i gynnal oedfa Blygain ar Ionawr 9fed, 2022 a phartïon a chyfraniadau o blith aelodau Bethlehem yn unig fu'n cyfrannu. Dyma nhw...



Diolch i bawb gyfrannodd, ac i Rhodri am dywys y Plygeinwyr, ac R Alun & Ifan am eu cymell i ganu. Mae'r oedfa hon hefyd ar YouTube: <https://youtu.be/8Qvh30rkJaM>